**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/LG/1291/14

William Graham AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Ionawr 2015

Annwyl William

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth: Gwelliant i Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad a baratowyd ganddynt fis Tachwedd ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol uchod.

Mae disgwyl i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Ionawr. Gan ystyried hyn, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi gwybod i chi am welliannau i'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth ("y Bil") yn ymwneud â darpariaethau mewn perthynas â Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954 a thenantiaethau busnesau cartref. Cafodd y gwelliannau i'r Bil eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU ar ddydd Sadwrn 20 Rhagfyr.

Mae'r gwelliant pwysicaf yn ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth i ddiffinio busnes cartref mewn perthynas â'r diffiniad o denantiaeth busnes cartref. Mae'r rheoliad sy'n gosod y pŵer sydd dan sylw yn y gwelliannau arfaethedig i'w weld yng nghymal 35. Yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig y Senedd, penderfynodd Llywodraeth y DU gynnwys gwelliant i newid o weithdrefn negyddol i weithdrefn gadarnhaol. Rwyf wedi cytuno y dylai'r gwelliant hwn hefyd fod yn gymwys yng Nghymru, ac rwy'n hyderus y bydd y Pwyllgor yn fodlon â'r gwelliant hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Gan ei fod yn ddiwygiad sylweddol i'r Memorandwm a osodwyd yn wreiddiol ar y mater hwn, mae Llywodraeth Cymru yn trefnu cyflwyno Memorandwm diwygiedig cyn y drafodaeth ar 13 Ionawr. Dylwn ychwanegu bod rhai mân welliannau eraill i'r Bil. Maent yn ymwneud â darpariaethau mewn perthynas â thenantiaethau busnesau cartref, ac fe fydd y Memorandwm diwygiedig hefyd yn cyfeirio at y rheiny. Atodaf gopi o'r Memorandwm diwygiedig er gwybodaeth i chi.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty